YR ATODLEN

Amodau

RHAN 1

Amodau ar weithrediadau adeiladu

Uchder adeiladau ac arwynebau caled

8.—(1) Rhaid i'r elfennau a ganlyn fod wedi eu gwneud o laswellt cyfnerthedig hydraidd—

(a) y ffordd fynediad argyfwng;

(b) cilfan yr is-orsaf.

(2) Os cânt eu hadeiladu rhaid i'r elfennau a ganlyn fod wedi eu gwneud o ddeunydd hydraidd—

(a) llwybrau troed;

(b) meysydd parcio.

(3) Os cânt eu hadeiladu rhaid i'r elfennau a ganlyn fod wedi eu gwneud o ddeunydd anhydraidd ac wedi eu hadeiladu i atal llygryddion rhag mynd i'r ddaear—

(a) pob ffordd heblaw'r ffordd fynediad argyfwng;

(b) y llain ddanfoniadau;

(c) yr ardal arolygu cerbydau;

(d) yr ardal cwarantin cerbydau.